# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET - DYDD MERCHER, 25 IONAWR 2023

# BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: J.Hurley (Cadeirydd) a/ac N.Jenkins

**Swyddogion sy’n Bresennol:**

I.Guy, H.Lervy, A.Thomas a/ac PWalker

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Nia Jenkins yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Bod Blaenraglen Waith Bwrdd Addysg, Sgiliau a Lles y Cabinet 2022/23 yn cael ei nodi.

6. **AMSER CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 7. STRATEGAETH CYFRANOGIAD AC YMGYSYLLTU

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i Atodiad 1 a 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd;

1. bod y Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu yn cael ei gymeradwyo i fabwysiadu'r Strategaeth yn ffurfiol gyda fframwaith clir ar gyfer Cyfranogiad ac Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn dilyn ymgynghoriad.
2. bod fersiwn hawdd ei darllen o'r Strategaeth sy'n addas i bobl ifanc yn cael ei llunio ac yn hygyrch i bawb.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Cryfhau cyfranogiad ac ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc ymhellach ar faterion a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Sul 29 Ionawr 2023.

## 8. Y MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG YN YSGOLION CASTELL-NEDD PORT TALBOT

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i Atodiad 1 ac Asesiad Effaith Integredig yr adroddiad a ddosbarthwyd;

1. Bod y maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym mhob un o ysgolion Castell-nedd Port Talbot yn cael ei gymeradwyo.

2. Bod copïau o'r maes llafur cytunedig yn cael eu cyhoeddi ar wefannau'r awdurdodau lleol.

3. Bod copïau o'r maes llafur cytunedig yn cael eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC).

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Er mwyn datblygu maes llafur cytunedig yn ôl y gyfraith yn unol â Chwricwlwm i Gymru ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Sul 29 Ionawr 2023.

9. **TÎM GWELLA YSGOLION - MONITRO YMWELIADAU CYMORTH**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi at ddibenion monitro.

10. **DIWEDDARIAD CYFLOGADWYEDD A SGILIAU**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

11. **CYLLID GRANT CADW CASTELL MARGAM**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth a bod buddion y cyllid grant yn cael eu hamlinellu.

12. **ADRODDIAD DIWEDDARU'R GWASANAETHAU HAMDDEN**

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

13. **EITEMAU BRYS**

Derbyniwyd un eitem frys ac fe'i cyhoeddwyd fel eitem ategol i becyn Agenda'r Cabinet a ddosbarthwyd.

14. **EHANGU GOFAL PLANT DECHRAU'N DEG - CAM 2**

**Penderfyniad:**
Gan roi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig ac Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd,

1. bod y cynlluniau i ehangu darpariaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg Cam 2a a 2b yn cael eu cymeradwyo ar gyfer Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Er mwyn sicrhau bod y cyngor yn dechrau ar ei gynnig gofal plant a ariennir drwy ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar o fis Ebrill 2023.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith, fel y cytunwyd arno gyda Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant.

**CADEIRYDD**